Datganiad Diogelwch ar y Ffyrdd 2019: Oes o Ddiogelwch ar y Ffyrdd

YN Y RHIFYN HWN:

Datganiad Diogelwch ar y Ffyrdd 2019
Strategaeth Leoli Camerâu GanBwyll
Tynnu Sylw Gyrwyr: Ffonau Symudol Dim Dwylo
Y Prif Ddiffygion mewn Profion Gyrru
Treial Lonydd Bysiau i Feicwyr Modur
Gwell Ymwybyddiaeth Dysgwyr o Feicwyr Modur

Mae'r Adran Drafnidiaeth wedi cyhoeddi diweddariad i'r datganiad a wnaeth yn 2015 ar ddiogelwch ar y ffyrdd; gyda chosbau uwch am fethu â gwisgo gwregys diogelwch yn un o'r 74 o fesurau sy'n cael eu hystyried i wella diogelwch ar y ffyrdd i bobl ym mhob cyfnod o'u bywyd, o'u genedigaeth hyd at eu henaint.

O dan y cynlluniau newydd, gallai methu â gwisgo gwregys diogelwch arwain at bwyntiau cosb yn ogystal â dirwyon, er mwyn lleihau nifer y marwolaethau ar ffyrdd y Deyrnas Unedig.

Dywedodd yr Ysgrifennydd Trafnidiaeth, Chris Grayling, "Mae gan y Deyrnas Unedig rai o'r ffyrdd mwyaf diogel yn y byd, ond nid ydym yn llaesu dwylo ac rydym yn dal i edrych ar sut y gallwn eu gwneud yn fwy diogel.
“Mae cynllun gweithredu heddiw yn garreg filltir allweddol yn ein gwaith diogelwch ar y ffyrdd ac yn nodi’r camau pwysig rydym yn eu cymryd i leihau nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ein ffyrdd.
"Mae'r Adran Drafnidiaeth hefyd yn ystyried yr adroddiad gan Gyngor Cynghorol y Senedd ar Ddiogelwch Trafnidiaeth (PACTS) ar ddefnyddio gwregysau diogelwch. Mae'r adroddiad hwn yn dadansoddi pa yrwyr a theithwyr sydd leiaf tebygol o wisgo gwregys diogelwch, beth sy'n ysgogi eu hymddygiad a pha ymyriadau a fyddai orau i leihau nifer yr anafiadau.”
Mae'r cynllun gweithredu yn adeiladu ar nifer o brosiectau yn y Datganiad Diogelwch ar y Ffyrdd, a gyhoeddwyd yn 2015, lle cafwyd mwy o orfodaeth ar yrru a chymryd cyffuriau, a dyblu'r cosbau am ddefnyddio ffôn symudol wrth y llyw.

Mae’r Datganiad, sydd ar gael i’w ddarllen yma, yn canolbwyntio’n arbennig ar anghenion pedwar grŵp o ddefnyddwyr ffyrdd sy’n agored i niwed:

- **pobl ifanc sy’n defnyddio’r ffyrdd**
- **defnyddwyr ffyrdd gwledig**
- **beicwyr modur**
- **pobl hŷn sy’n defnyddio’r ffyrdd**

Y Lle Cywir. Yr Amser Cywir. Y Rheswm Cywir.

Cyhoeddodd GanBwyll fanylion ei strategaeth leoli newydd yn ddiweddar.

Mae GanBwyll yn lleoli camerâu mewn mannau lle mae defnyddwyr y ffyrdd wedi cael eu lladd neu eu hanafu, lle mae cyflymder gormodol wedi'i gofnodi, ar gyfer gweithrediadau arbennig megis gorfodaeth yn erbyn peidio â gwisgo gwregys diogelwch neu ddefnyddio ffôn symudol, neu mewn safleoedd sy'n peri pryder i'r gymuned.

Bydd GanBwyll i'w weld yn unrhyw le, unrhyw bryd ac am y rheswm cywir a bydd safleoedd yn cael eu dewis yn ôl y perygl o wrthdaro ac er mwyn cynyddu'r gydymffurfiaeth â'r terfyn cyflymder ledled Cymru gyfan.

Gallai'r strategaeth leoli hon olygu bod un safle gorfodi yn bresennol ar lwybr i orfodi cyflymder, tra bydd ail safle gorfodi gerllaw yn canolbwyntio ar ddefnyddio ffonau symudol.

Mae ar y faniau arwyddion amlwg er mwyn bod yn weladwy ac ni chaiff camerâu eu cuddio i ddal gyrwyr allan na'u gosod lle byddant yn cofnodi'r nifer uchaf o droseddau goryrru. Nod strategaeth GanBwyll yw gwneud i fodurwyr feddwl am eu dulliau gyrru, a gyrru'n ddiogel ac yn gyfreithlon ar hyd eu taith gyfan.

Dywedodd Teresa Ciano, Rheolwr Partneriaeth GanBwyll, "Mae yna argraff ymhlith rhai modurwyr na all camerâu orfodi'r gyfraith heb fod arwydd camera cyflymder yn bresennol. Nid yw hyn yn wir ac rydym yn annog pob modurwr i ragdybio, pan welan nhw arwydd terfyn cyflymder neu pan fôn nhw mewn man lle mae goleuadau stryd ar gael, y gall camera gorfodi fod yno hefyd. Pan fyddwn yn gorfodi, mae mwy o bobl yn cydymffurfio â'r terfyn cyflymder yr hoffem ei weld ar draws y rhwydwaith ffyrdd yn ei gyfanrwydd, nid mewn nifer fach o leoliadau yn unig."

"Pan fo camerâu symudol ar gael, gwyddom fod modurwyr yn cydymffurfio â'r terfynau cyflymder a chan fod ein camerâu ni'n bresennol ar 2% yn unig o rwydwaith ffyrdd Cymru rydyn ni'n credu'n gryf y dylai'n camerâu allu ymestyn eu heffeithiolrwydd ar draws ardal ehangach o'r rhwydwaith ffyrdd.

Does dim angen nac esgus byth am oryrru ac mae'r strategaeth newydd yma wedi'i hanelu at wella nifer y modurwyr sy'n cydymffurfio â'r terfynau cyflymder ledled Cymru er lles diogelwch pawb."

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn www.gosafe.org.uk

Tynnu Sylw Gyrwyr a Ffonau Symudol Dim Dwylo

Roedd y cyflwynwyr yng nghynhadledd Diogelwch Ffyrdd Cymru eleni, a gynhaliwyd yn Llandrindod ar 10 Gorffennaf, yn cynnwys y Dr Helen Wells o Brifysgol Keele a'r Dr Gemma Briggs o'r Brifysgol Agored, ill dwy'n hyrwyddo llai o ddefnydd ar ffonau symudol â llaw a ffonau dim dwylo wrth yrru.

Yn ddiweddar mae'r prosiect *Mobile:Engaged*, a ariannwyd gan Road Safety Support ac sy'n cael ei arwain gan y Dr Wells, sy'n ymchwilydd troseddeg arbenigol ym maes plismona'r ffyrdd, wedi cyhoeddi 'compendiwm' o 160 o dudalennau o awgrymiadau, syniadau ac astudiaethau achos ynghylch dylunio, gweithredu a chloriannu prosiectau sy'n anelu at atal gyrwyr rhag defnyddio ffonau symudol.

Mae'r compendiwm ar gael yma yn rhad ac am ddim.

Gallwch weld esboniad gan y Dr Briggs o sut mae ffonau symudol dim dwylo yn tynnu sylw gyrwyr yma.

Mewn adroddiad newydd a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Trafnidiaeth, mae grwp o Aelodau Seneddol yn galw am adolygu'r gyfraith ar ffonau symudol, ynghyd â gorfodi'r gyfraith yn llymach.

Y Prif Ddiffygion Gyrru mewn Profion Gyrru ym Mlwyddyn Gyntaf y Prawf Gyrru Newydd

Mae'r Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau (DVSA) wedi datgelu'r prif ddiffygion yn y prawf gyrru ym mlwyddyn gyntaf y prawf newydd. Methu ag edrych yn iawn wrth gyffyrdd a pheidio â defnyddio'r drychau yn effeithiol yw'r prif resymau y methodd pobl yn sgil newidiadau a wnaed i'r prawf gyrru yn 2017.

O ganlyniad mae'r DVSA yn annog y rhai sy'n dysgu gyrru i dreulio mwy o amser yn ymarfer eu sgiliau a'u technegau gyrru yn y meysydd hyn, gan ddefnyddio amryw o ffyrdd gwahanol, fel ffyrdd gwledig a ffyrdd deuol.

Mae'r DVSA hefyd am i ddysgwyr dreulio mwy o amser yn ymarfer gyrru mewn gwahanol amgylchiadau ar y ffordd, fel gyrru mewn glaw a gyrru yn y tywyllwch i'w paratoi'n well ar gyfer oes o yrru'n ddiogel.

Diffyg arsylwi wrth gyffyrdd a pheidio â defnyddio drychau yn effeithiol wrth newid cyfeiriad oedd yn gyfrifol am 368,047 o fethiannau prawf mewn 12 mis.

Mae rhagor o gyngor gan y DVSA ar gael yma.

Treial Beicwyr Modur mewn Lonydd Bysiau yn y Fro

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn bwriadu treialu caniatáu i feiciau modur ddefnyddio lonydd bysiau ar hyd dau lwybr yn y sir. O dan y cynllun, bydden nhw'n cael teithio yn y lonydd am rai cannoedd o fetrau ar Port Road, rhwng y Barri a Chroes Cwrlwys, a rhan o Cardiff Road, o Eastbrook yn Ninas Powys i Gyffordd y Merrie Harrier.

Daw'r symudiad yn sgil sylwadau gan feicwyr modur a grwpiau beicio modur gan gynnwys Grŵp Gweithredu Beiciau Modur (MAG) a llwyddiant yn sgil cyflwyno mesurau tebyg mewn rhannau eraill o'r wlad. Y bwriad yw gwella diogelwch beicwyr modur ac fe all helpu hefyd i frwydro yn erbyn tagfeydd.

I ddechrau, byddai mopedau a beiciau modur yn cael defnyddio'r lonydd bysiau a ddewiswyd ar sail treial am 12 mis, ac yn ystod y cyfnod hwnnw bydd y cyhoedd yn gallu mynegi eu barn ar y mater. Os yw'r peilot yn un cadarnhaol, byddai'r polisi yn cael ei droi'n barhaol a gellid ei ymestyn i lonydd bysiau eraill yn y dyfodol.

Dywedodd y Cynghorydd Neil Moore, arweinydd Cyngor Bro Morgannwg, "Mae tystiolaeth sylweddol i gefnogi manteision caniatáu i feiciau modur a mopedau ddefnyddio lonydd bysiau o arbrofion tebyg mewn rhannau eraill o'r wlad.

"Nid yn unig mae cam o'r fath yn gwella diogelwch i feicwyr modur, ond mae hefyd yn gallu gwella ansawdd aer. Rwy'n siŵr y bydd y fenter yn llwyddiant ac fe allai hyd yn oed leihau tagfeydd. Bydd hyn hefyd yn ychwanegu elfen o gysondeb drwy ardaloedd cynghorau unedol Cymru."

Helpu'r Rhai sy'n Dysgu Gyrru i Wella'u Hymwybyddiaeth o Feicwyr Modur

Mae'r DVSA wedi lansio fideos cyfrifiadur (CGI) realistig sy'n procio'r meddwl ac yn annog rhai sy'n dysgu gyrru i fod yn fwy ymwybodol o feicwyr modur.

Bydd y fideos yn dod yn rhan o ddeunyddiau dysgu swyddogol y DVSA ac yn helpu i wella diogelwch beicwyr modur, drwy annog gyrwyr sy'n ddysgwyr i sylwi'n well arnyn nhw wrth yrru.

Mae Ria Brisland, ymgyrchydd diogelwch ar y ffyrdd a beiciwr brwd, y bu ei mab 19 oed, Nick, farw yn 2015 ar ôl bod yn rhan o wrthdrawiad â char wrth reidio ei feic modur, wedi chwarae rhan allweddol yn natblygiad yr adnoddau. Dywedodd Ria, "Mae cael pawb i fod yn ymwybodol o'u cyd-ddefnyddwyr ar y ffyrdd bob amser yn hanfodol os ydyn ni am atal gwrthdrawiadau a'r canlyniadau dinistriol y gallan nhw eu creu i deuluoedd. Mae'r clipiau newydd hyn yn procio'r meddwl a byddan nhw'n gwneud gwahaniaeth i'r ffordd mae pobl yn chwilio am feicwyr. Efallai y byddan nhw'n gwneud y gwahaniaeth rhwng byw a marw."

Ychwanegodd Mark Winn, Prif Arholwr Gyrru'r DVSA, "Blaenoriaeth y DVSA yw helpu pawb trwy oes o yrru diogel. Bydd y clipiau newydd pwysig hyn, sydd wedi'u creu gyda Ria, yn helpu hyfforddiant gyrwyr a reidwyr er mwyn diogelu beicwyr modur sy'n agored i niwed. Byddwn yn defnyddio'r rhain yn ein cynhyrchion addysgol ac ar y cyfryngau cymdeithasol i helpu gyrwyr i gadw golwg am feicwyr modur."

Edrychwch ar fideo enghreifftiol.